

Rhif: WG35865



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

## Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli

Gweithredu fframwaith rheoleiddio newydd

Rhagfyr 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## **Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn darparu trosolwg o'r ymatebion a derbyniodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad:

WG34724 - Cam 3 Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - Gwasanaethau Eirioli.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad yma ar 24 Mai 2018 a daeth i ben ar 16 Awst 2018. Derbyniwyd 19 ymateb gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â buddiant.

## **Camau i'w Cymryd**

Er gwybodaeth yn unig.

## **Mwy o Wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth  
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [RISCAct2016@gov.wales](mailto:RISCAct2016@gov.wales)

## **Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://beta.gov.wales/advocacy-services-regulations>

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael.

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Adran 1</b>	
1.1 Cyflwyniad	4
1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid	5
1.3 Yr ymgynghoriad hwn	6
1.4 Digwyddiadau ymgynghori	7
1.5 Y camau nesaf	7
<b>Adran 2</b>	
2.1 Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru	8 - 26
2.2 Cwestiynau ychwanegol	27 - 31
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr	32

## Adran 1

### 1.1 Cyflwyniad

Bu i Ddeddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<sup>1</sup> ('Deddf 2016') dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n nodi'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac archwilioio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac yn diwygio rheoleiddio gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Felly, mae'n disodli'r systemau perthnasol a sefydlwyd cyn hynny o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000<sup>2</sup>.

Mae Deddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu nifer o eitemau o is-ddeddfwriaethau drwy lunio rheoliadau, ynghyd â chyhoeddi canllawiau statudol a chyhoeddi codau ymarfer. Mae'r gwaith o weithredu hynny yn cael ei gyflawni'n sylweddol fesul tri chyfnod sy'n gorgyffwrdd:

- **Cyfnod 1 (2016/17)** oedd yn cynnwys rheoliadau mewn perthynas â'r system newydd o reoleiddio gweithlu oedd yn ofynnol o dan y Ddeddf. Daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Yn ogystal â'r rhain, bu i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu rheolau a gweithdrefnau sy'n rheoli'r broses o gofrestru a rheoleiddio gweithlu.
- **Cyfnod 2 (2017/18)** pryd y sefydlwyd systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau a reoleiddir ac a weithredwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Ebrill 2018. Roedd y cyfnod hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â chartrefi gofal (yn cynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth preswyl. Daeth y rhain i rym ar 2 Ebrill 2018.

Mae dolenni ar gael i holl reoliadau a chanllawiau cyfnod 1 a chyfnod 2 drwy Ganolbwynt Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru<sup>3</sup>:

- **Cyfnod 3 (2018/19)** yw'r cyfnod presennol ac mae'n cynnwys datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig o ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas ag asiantaethau mabwysiadu, asiantaethau maethu annibynnol, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli. Bwriedir i'r rhain ddod i rym yn Ebrill 2019.

<sup>1</sup> [http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw\\_20160002\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_en.pdf)

<sup>2</sup> [http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga\\_20000014\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf)

<sup>3</sup> <https://socialcare.wales/hub/riscact-regulations>

## 1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

Ar hyn o bryd nid yw gwasanaethau eirioli yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio.

Bu i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno adroddiad yn 2008 gan fynegi nifer o bryderon am ansawdd a swm gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc, a'u pwysigrwydd yn dilyn adroddiad Waterhouse, *Lost in Care*<sup>4</sup>, a gyhoeddwyd yn 2000. Bu i adolygiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn 2010 argymhell cyhoeddi'r canllawiau statudol ar unwaith.

Bu i Gomisiynydd Plant Cymru gyhoeddi adroddiad ar wasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a phlant anghenus yng Nghymru<sup>5</sup> yn 2012. Bu i'r adroddiad fynegi nifer o faterion yn cynnwys diffyg arweiniad strategol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol; diffyg ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hyrwyddo eiriolaeth; diffyg cysondeb wrth weithredu darpariaeth eirioli; diffyg craffu ar ansawdd y ddarpariaeth eirioli a chomisiynu.

Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad<sup>6</sup>, bu i'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol bryd hynny ymrwymo i gyhoeddi Fframwaith Safonau a Deilliannau Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth, er mwyn annog gwelliant o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan ddarparwyr eiriolaeth annibynnol.

Bu i'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant bryd hynny gytuno ar ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar Fframwaith Safonau a Deilliannau Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc<sup>7</sup> ('y Fframwaith'). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwnnw rhwng 31 Mawrth a 23 Mehefin 2017. Roedd yr holl ymatebwyr at ei gilydd yn cefnogi'r egwyddorion oedd yn sail i'r Fframwaith ac yn cytuno bod y safonau yn gam cadarnhaol.

### Rheoleiddio o dan Deddf 2016

Yn ystod y broses graffu a phasio'r Bil gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, cafodd "gwasanaethau eirioli" eu hychwanegu, fel atodiad, i'r rhestr o "wasanaethau a reoleiddir" yn adran 2(1) y Ddeddf, gyda phŵer llunio rheoliadau yn Atodlen 1 er mwyn diffinio beth yw ystyr 'Gwasanaethau eirioli' at ddibenion rheoleiddio ac archwilio'r gwasanaethau hynny, o dan Ddeddf 2016.

Mae diwygio'r system reoleiddio ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, a ysgogir yn bennaf drwy weithredu Deddf 2016, yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:

- ymatebolrwydd i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>8</sup> ('Deddf 2014')
- sicrhau bod dinasyddion wrth galon gofal a chymorth
- datblygu dull Cymreig cydlynol a chyson
- taclo methiannau darparwyr
- ymatebolrwydd i fodolau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon newydd am ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

<sup>4</sup>[http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130124064403/http://www.dh.gov.uk/prod\\_consum\\_dh/groups/dh\\_digitalassets/documents/digitalasset/dh\\_134777.pdf](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130124064403/http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/documents/digitalasset/dh_134777.pdf)

<sup>5</sup> [https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Missing-Voices\\_E.pdf](https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Missing-Voices_E.pdf)

<sup>6</sup> <https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2012/advocacy/?lang=en>

<sup>7</sup> <https://beta.gov.wales/national-standards-and-outcomes-framework-children-and-young-people>

<sup>8</sup> [http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw\\_20140004\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf)

### 1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Roedd yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd o 24 Mai i 16 Awst 2018 yn ceisio safbwyntiau ar Reoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoledig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol ) (Cymru) 2019, sydd yn gryno yn:

- Diffinio “gwasanaethau eirioli” at ddibenion Deddf 2016 sydd yn rhan o'r gyfundrefn reoleiddio ac archwilio mae'n ei sefydlu.

Ar hyn o bryd bydd hynny yn cael ei gyfyngu ar gyfer:

- a) Gwasanaeth gaiff ei gynnal er mwyn darparu eiriolaeth i blant sydd yn neu'n bwriadu rhoi sylwadau sydd yn perthyn i adran 174 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Sylwadau mewn perthynas â phlant penodol etc.) neu
- b) Gwasanaeth gaiff ei gynnal er mwyn darparu eiriolaeth i unigolion sydd yn neu'n bwriadu rhoi sylwadau sydd yn perthyn i adran 176 Deddf 2014 (Sylwadau mewn perthynas â phlant oedd yn arfer derbyn gofal etc.)

pan mai pwrpas y cymorth yw cynrychioli safbwyntiau plant neu unigolion, neu eu cynorthwyo i gynrychioli eu safbwyntiau mewn perthynas â'u hanghenion am ofal a chymorth.

- gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau eirioli rheoledig o dan Deddf 2016

Roedd hefyd yn gwahodd safbwyntiau ar:

- Ganllawiau statudol drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli rheoledig ac unigolion cyfrifol o ran bodloni safonau gwasanaeth
- cynnwys darparwyr mathau eraill o eiriolaeth o bosibl - yn cynnwys ar gyfer oedolion - fel rhan o'r gyfundrefn reoleiddio ac archwilio pan fo tystiolaeth o'i effaith ar sefydlogrwydd y farchnad yn awgrymu bod y farchnad yn ddigon sefydlog i gynnal hynny.

Derbyniwyd 19 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd rhai o'r rhain yn naratif pur, ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y crynodeb o ymatebion blychau ticio yn yr adroddiad. Mae'r holl ymatebion wedi cael eu hystyried yn gyfartal mewn perthynas â'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae rhestr o'r ymatebwyr wedi ei hatodi yn Atodiad A.

Ceir crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru, yn Adran 2.

## 1.4 Digwyddiadau ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Amcan y digwyddiadau oedd annog rhanddeiliaid i ymateb ac i alluogi'r rhai oedd yn mynychu i:

- gael trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol drafft a'r newidiadau allweddol fydd hwnnw yn ei achosi;
- gwirio eu dealltwriaeth o'r cynigion a gofyn am esboniad, petai angen hynny;
- ystyried goblygiadau posibl i'w rôl a'u sefydliad

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 16 Gorffennaf ym Mhrifysgol Glyndŵr a chynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 19 Gorffennaf yng Ngerddi Soffia, Caerdydd.

Ar y cyfan roedd y llefydd a gymerwyd ar gyfer y digwyddiadau - oedd yn cynnwys ymgynghoriadau ar leoliadau oedolion, eiriolaeth a gwasanaethau maethu - yn gadarnhaol, a bu i tua 90 o unigolion fynychu yng Nghaerdydd a chafwyd 40 o gynrychiolwyr yn Wrecsam. Bu i amrywiaeth o sefydliadau'r sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a'r trydydd sector gael eu cynrychioli, yn cynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaethau.

## 1.5 Y camau nesaf

Bydd y Rheoliadau yn cael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod Rhagfyr 2018 ac maent wedi eu hamserlennu ar gyfer trafodaeth yn Ionawr 2019. Os byddant yn cael eu pasio gan y Cynulliad, amcanir iddynt ddod i rym yn Ebrill 2019.

## Adran 2

### 2.1 Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

**Noder:** Gan fod rhai canrannau wedi cael eu talgrynnu ni fyddant bob amser yn rhoi cyfanswm o 100%.

#### RHAN 1: Cyffredinol

**Cwestiwn 1: A yw'r eithriadau arfaethedig sydd wedi cael eu nodi yn Rhan 1 mewn perthynas â gwasanaethau eirioli rheoledig yn briodol? Byddem yn benodol yn croesawu safbwyntiau ar gymhwysedd ac ymarferoldeb y rhannau a eithriwyd o reoleiddio o dan y rhan hon.**

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
4	5	3	1	6
21%	26%	16%	5%	32%

#### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yna gefnogaeth eang i'r eithriadau a gynigiwyd, ymysg y rhai a nododd ateb.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn briodol yn adlewyrchu natur a gofynion darpariaeth eirioli, ac awgrymiadau a wnaed gan y grŵp technegol eiriolaeth. Bu i rai ymatebwyr fynegi pryder nad yw ystyr "eiriolaeth" yn rheoliad drafft 1(4) - 'cymorth a roddir er mwyn helpu i berson gynrychioli ei safbwynt' yn alinio'n llwyr ag ethos "gwasanaethau eirioli" (fel y diffinnir hynny yn rheoliad drafft 2) na'r diffiniad o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn y Cod Ymarfer Eiriolaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014'). Awgrymodd rhai bod y gwasanaethau llai yn anochel yn mynd i gael anhawster cydymffurfio. Roeddent yn teimlo bod yna risg na fyddai gwasanaethau bach yn gallu fforddio cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau ac y gellid colli gwasanaethau lleol pwysig o ganlyniad i hynny. Dywedodd rhai y dylid eithrio mwy (yn rheoliad drafft 2) ar gyfer sefydliadau ac unigolion sydd yn darparu gwasanaethau eiriol ar raddfa fach iawn ac o dan amgylchiadau ble roedd gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer nifer o unigolion sydd yn aelodau o'r un grŵp teuluol.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Byddai Llywodraeth Cymru yn awgrymu na fwriadwyd i'r diffiniad o "eiriolaeth" yn rheoliad 1 gyfyngu ar neu gymhwyso'r diffiniad o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn y Cod Ymarfer o dan Ddeddf 2014, nac adlewyrchu'r ystod lawn o wasanaethau eirioli allai fod ar gael i unigolion o dan amrywiaeth o amgylchiadau, ond er mwyn adlewyrchu, at ddibenion y Rheoliadau hyn, y "gwasanaethau eirioli" hynny fydd yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2016.



Mae'n bwysig bod rheoliadau ac archwiliadau yn cael eu cyflwyno i'r sector eirioli mewn ffordd gymesur a graddol a bod hynny yn cael ei ymestyn i rannau eraill y sector pan fo sefydlogrwydd yn y farchnad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ehangu'r eithriad yn rheoliad drafft 2 (Diffiniadau ac eithriadau) sydd yn gymwys pan fo gwasanaeth yn cael ei ddarparu i bedwar o unigolion neu lai yn ystod cyfnod o 12 mis fel ei fod yn benodol yn cynnwys sefydliadau yn ogystal ag unigolion sydd yn darparu gwasanaeth. Byddwn hefyd yn addasu'r Rheoliadau er mwyn sicrhau na fyddai darparu eiriolaeth i deulu unigol o frodyr a chwiorydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth fod wedi ei reoleiddio fel pe na bai'r unigolion hynny yn perthyn i'w gilydd.

## RHAN 2: Gofynion Cyffredinol ar gyfer Ddarparwyr Gwasanaethau

### Cwestiwn 2: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
1	4	1	1	12
5%	21%	5%	5%	63%

### Crynodeb o'r ymatebion

Bu i rai ymatebwyr fynegi pryder ynghylch cynnwys y datganiad o ddiben sydd yn ofynnol o dan reoliad drafft 4 (Gofynion mewn perthynas â darparu gwasanaeth). Roedd yna beth dryswch ynghylch a fyddai angen datganiad o ddiben ar gyfer pob darparwr gwasanaeth neu ar gyfer pob man y darperir gwasanaeth ohonynt. Gallai hynny achosi goblygiadau difrifol i'r ymarfer o gomisiynu gwasanaethau yn rhanbarthol. Cafwyd rhai awgrymiadau y dylai rheoliad drafft 9 (Rheoliadau ar gyfer darparu gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau) gynnwys gofyniad i gael polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bu i rai fynegi dryswch ynghylch sut mae'r mesurau a gynigir yn cydweddu â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, ac a fwriedir iddynt ei ddyblygu, ei ategu neu ei ddisodli.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn amhriodol i ganllawiau statudol mewn perthynas â rheoliad drafft 10 (Dyletswydd gonestrwydd) nodi bod raid i ddarparwyr gwasanaeth eirioli weithio yn unol â chanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol, oherwydd y byddai hynny yn achosi gwrthdaro buddiannau â'r annibyniaeth sydd yn rhan annatod o rôl eiriolwr. Teimlwyd y byddai'r gofyniad yn rheoliad drafft 10(b) i'r darparwr gwasanaeth weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny yn broblemus. Gallai'r eiriolwr fod wedi cael cyfarwyddyd i beidio â datgelu gwybodaeth i gynrychiolydd. Rhan hanfodol o natur eiriolaeth yw y dylent deimlo bod rhyddid iddynt gynnal cyfrinachedd, heb achosi gwrthdaro buddiannau. Felly, dylai'r ddyletswydd cyfrinachedd yn rheoliad drafft 19 (Cyfrinachedd) gael blaenoriaeth, a theimlwyd na ddylid ymestyn rheoliad drafft 10(b), yn y dyfodol, er mwyn cynnwys eiriolaeth i oedolion.

Awgrymwyd hefyd nad yw'r canllawiau statudol ar y datganiad o ddiben yn cyfleu'n ddigonol beth sydd yn tanategu'r "gofal, cymhwysedd a sgil" sydd yn ofynnol yn rheoliad drafft 3 (Gofynion mewn perthynas â darparu gwasanaethau). Awgrymwyd y dylai'r datganiad o ddiben hefyd gynnwys gweledigaeth a gwerthoedd y darparwr, lefel cymhwysedd a sgil yr eiriolwyr a gyflogir, sut mae'r gwasanaeth yn ymgorffori egwyddorion Hawliau Dynol a chonfensiynau eraill, a sut y gellir cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o reoli a datblygu'r gwasanaeth.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai canllawiau statudol ar reoliad drafft 5 (Gofynion mewn perthynas â monitro a gwelliant) ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth nodi sut y

mae'n cynnwys safbwyntiau a barnau pobl allai ddefnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau dull gwirioneddol gydgynhyrchiol o fonitro a gwella gwasanaeth.

Awgrymwyd nad oes yna ar hyn o bryd unrhyw reoleiddiwr proffesiynol ar gyfer eiriolwyr a dim Cod Ymarfer proffesiynol - felly ni ddylai darpariaethau yn y canllawiau statudol ar reoliadau drafft 10 a 24 (Addasrwydd staff) gael eu cymhwyso i wasanaethau eirioli.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y diffiniad o "Wasanaeth", yn rheoliad drafft 1, a 'ddarperir mewn perthynas ag ardal benodol' yn sicrhau bod datganiad o ddiben darparwr gwasanaeth yn cynnwys yr ardal ddaearyddol y maent yn darparu eu gwasanaeth ar ei chyfer. Mewn perthynas â pholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth, mae canllawiau statudol yn egluro y dylai polisïau a gweithdrefnau gael eu halinio â deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau cenedlaethol. Hefyd, mae Rheoliad 18 (Parch a sensitifrwydd) yn cynnwys y gofyniad i drin unigolion â pharch a sensitifrwydd, ac mae canllawiau o dan y Rheoliad hwnnw yn nodi y dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau nad yw unigolion yn dioddef gwahaniaethu yn eu gwasanaeth. Mae'r gwaith o ddatblygu'r rheoliadau hyn a chanllawiau statudol wedi cael ei hysbysu gan ddatblygu Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc. Rydym yn cydnabod bod trefniadau contract yn bodoli a bod safonau wedi cael eu sefydlu fel rhan o'r Dull Cenedlaethol newydd, ond mae rheoliadau yn golygu bod rhaid i'r rhain gael eu rhagnodi'n ffurfiol fel y gellir archwilio a mesur yn eu herbyn.

Rydym yn cynnig egluro na all y ddyletswydd gonestrwydd wrthdaro â'r dyletswyddau yn rheoliadau 18 ac 19 er mwyn parchu preifatrwydd yr unigolyn hwnnw sydd yn defnyddio'r gwasanaeth, a rydym yn bwriadu dileu'r gofyniad i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gyda chomisiynwyr gwasanaethau.

### RHAN 3: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu eiriolaeth

#### Cwestiwn 3: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?

Byddem yn benodol yn croesawu safbwyntiau ar unrhyw wahaniaethau allai fod yn gymwys rhwng eirioli a gwasanaethau rheoledig eraill mewn perthynas ag unrhyw gynllun gofal a chymorth allai fod wedi ei sefydlu, a rôl gwasanaethau eirioli o ran adnabod a bodloni anghenion.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
1	6	2	1	9
5%	32%	11%	5%	47%

#### Crynodeb o'r ymatebion

Mynegwyd peth pryder ynglŷn â'r ffaith na ddylai'r penderfyniad ar addasrwydd y gwasanaeth eirioli gynnwys y gofyniad i roi ystyriaeth i'r deilliannau a ddymunir gan yr unigolyn. Efallai y bydd angen eiriolaeth er mwyn cynorthwyo'r unigolyn i'w clustnodi, a felly nid yw'n briodol ystyried y deilliannau a ddymunir wrth benderfynu ar addasrwydd y gwasanaeth.

Awgrymwyd y dylai canllawiau statudol nodi y gall y darparwr ddymuno cynnwys unrhyw gynrychiolydd wrth benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas ar gyfer unigolyn, ond ddim cyn trafod hynny â'r unigolyn ei hun. Roedd rhai yn ystyried bod Rhan 3 wedi ei alinio'n rhy agos â dull gwasanaethau gofal a chymorth traddodiadol ac nad oedd yn cydnabod yn ddigonol y ffordd y darperir eiriolaeth na'r ffordd y mae darparwyr yn cael eu contractio i weithredu. Bu i rai ymatebwyr ddweud na fyddai'n briodol efallai i'w gwneud yn ofynnol i eiriolwr gynnal ymgynghoriad ag unigolion a gweithwyr proffesiynol perthnasol cyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas er mwyn bodloni anghenion yr unigolyn yng nghyd-destun eiriolaeth, a phan fo gan yr unigolyn gapasiti, gellid ond gwneud hynny gyda chaniatâd yr unigolyn.

Awgrymwyd bod angen mwy o arweiniad efallai ar y camau y dylid eu cymryd gan y darparwr pan fo'n ystyried bod angen bwrw ymlaen â'r gwasanaeth er gwaethaf gwrthwynebiad cynrychiolydd y plentyn? A ddylent, er enghraifft, gadw cofnod ysgrifenedig o sail eu penderfyniad?

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Oherwydd bod eiriolaeth yn aml yn cael ei anelu at gynorthwyo'r unigolyn i sefydlu'r deilliannau a ddymunir, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r gofyniad, cyn cytuno i ddarparu gwasanaethau eirioli rheoledig, i ystyried y deilliannau a ddymunir gan yr unigolyn gael ei dynnu o'r Rheoliadau drafft.

Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, mewn perthynas â gwasanaethau eirioli rheoledig, i dynnu allan unrhyw gyfeiriad yn y canllawiau statudol at yr

angen i ymgynghori ag unigolion a gweithwyr proffesiynol perthnasol cyn cytuno i ddarparu eiriolaeth. Rydym yn credu y byddai'r gofyniad i sefydlu polisi a gweithdrefn fydd yn rheoli'r broes o ddechrau darparu gwasanaeth yn sicrhau bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud ynghylch a yw'r gwasanaeth yn addas, ac y byddai unrhyw wrthwynebiad fyddai gan gynrychiolydd yn cael ei gofnodi yma.

## RHAN 4: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth ddechrau darparu eiriolaeth

### Cwestiwn 4: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
1	6	2	1	9
5%	32%	11%	5%	47%

#### Crynodeb o'r ymatebion

Bu i rai ymatebwyr nodi nad yw'n angenrheidiol (ac efallai nad yw'n briodol ar rai achlysuron) i ddarparwr eiriolaeth gael copi o gynllun gofal a chymorth plentyn neu berson ifanc er mwyn darparu eiriolaeth. Mae eirioli yn ymwneud â sicrhau bod llais plentyn neu berson ifanc yn cael ei glywed ac yn cael ei ystyried wrth ddatblygu neu weithredu cynllun gofal a chymorth. Maent yn cydnabod bod y canllawiau statudol yn fuddiol o ran esbonio ac ymestyn y Rheoliadau drafft, er y byddai'n fuddiol pwysleisio nad oes angen i ddarparwr eiriolaeth gael copi o gynllun gofal a chymorth plentyn neu berson ifanc er mwyn darparu eiriolaeth.

Bu i un ymatebwr awgrymu mai deilliant eiriolaeth yn aml yw clustnodi cynnwys cynllun o'r fath neu ei herio, os mai hynny fydd dymuniad yr unigolyn. Byddai gwneud hynny'n ofynnol ar ddechrau ymyrraeth eirioli yn creu oedi, ac nid yw hynny yn angenrheidiol ar gyfer ymyrraeth eirioli sydd yn ymateb i'r mater a godir ar y pryd gan blentyn neu berson ifanc.

Awgrymwyd nad yw'r adeg y mae'r gwasanaeth yn dechrau yn cael ei esbonio'n glir, yn arbennig mewn perthynas â p'un a yw cyfarfod cynnig rhagweithiol, y gall yr unigolyn wrthod y gwasanaeth yn dilyn hynny, yn gyfystyr â dechrau rhoi gwasanaeth.

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo nad yw'r term 'cynllun personol', fel y'i defnyddir yn y Rheoliadau drafft, yn briodol efallai yng nghyd-destun gwasanaeth eirioli ac y gallai arwain at ddryswch gyda chynlluniau eraill o natur wahanol.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'n helpu o ran eglurder petai'r term 'cynllun eirioli' yn cael ei ddefnyddio yn y Rheoliadau er mwyn cyfleu y cynllun sydd yn cael ei baratoi gan y darparwr gwasanaeth mewn perthynas ag unigolyn.

Byddwn yn tynnu cyfeiriadau o'r canllawiau statudol at yr angen i ddarparwr gwasanaeth ystyried unrhyw gynllun gofal a chymorth a baratowyd ar gyfer yr unigolyn wrth lunio cynllun eiriolaeth (o dan reoliad drafft 12).

Rydym yn ystyried bod y gofyniad i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn yn y broseso benderfynu ar addasrwydd y gwasanaeth (o dan reoliad drafft 11) yn adlewyrchu Cynnig Rhagweithiol am eiriolaeth.

## RHAN 5: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran yr wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth ddechrau darparu eiriolaeth

### Cwestiwn 5: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
3	5	2	0	9
16%	26%	11%	0%	47%

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yna gefnogaeth eang i'r cynigion.

Bu i rai ymatebwyr fynegi pryderon am nad oedd yna ofynion pendant mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn Rhan 5 y Rheoliadau drafft.

Awgrymwyd y dylai rheoliad drafft 15 (gwybodaeth am y gwasanaeth) adlewyrchu cynnwys y Cynnig Rhagweithiol, oherwydd bod hynny yn nodi'r wybodaeth sydd angen ei rhannu gyda'r person ifanc yn y cyfarfod Cynnig Rhagweithiol. Bydd darparwyr gwasanaethau yn cydymffurfio â dogfennau contract oherwydd eu bod yn wasanaethau a gomisiynir. Yn achos gwasanaethau plant, dyma fydd cydrannau'r Dull Cenedlaethol. Byddai'n ddoeth o beth i ofynion y Dull Cenedlaethol fod union yr un fath â'r rhai sydd yn y Rheoliadau.

Nodwyd nad yw'r gofyniad i gael canllawiau ysgrifenedig ar y gwasanaeth yn rhoi ystyriaeth i bobl fyddar mewn unrhyw ffordd. Mewn perthynas â'r canllawiau statudol, awgrymwyd hefyd nad oedd y term "awdurdod lleoli" yn addas ar gyfer gwasanaeth eirioli.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y gofyniad i ganllawiau ar y gwasanaeth fod ar gael mewn iaith, arddull, edrychiad a fformat priodol yn sicrhau y byddir yn bodloni anghenion a dymuniadau unigolion.

Pan ddaw'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol i rym, bydd y Fframwaith Safonau a Deilliannau Cenedlaethol yn parhau i ddarparu canllawiau arferion da anstatudol i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau eirioli. Mewn perthynas â rheoleiddio, mae'n amlwg i ni mai'r amcan cyffredinol yw creu elfen o gymesuredd ynghyd â chysondeb â gwasanaethau eraill a reoleiddir o dan Ddeddf 2016. Er bod y gofynion o reidrwydd yn rhai lefel uchel, dylai'r un safonau uchel gael eu cymhwyso ar draws ar holl wasanaethau a reoleiddir. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod "awdurdod comisiynu" yn fwy priodol mewn perthynas â gwasanaethau eirioli yn hytrach nag "awdurdod lleoli" a bydd yn addasu'r canllawiau statudol yn unol â hynny.

## RHAN 6: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gwasanaethau eirioli sydd i'w darparu

### Cwestiwn 6: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?

Byddem yn croesawu safbwyntiau ar yr angen am bolisi cyfrinachedd ac unrhyw ystyriaethau arbennig allai fod yn gymwys yn achos gwasanaeth eirioli sydd yn neilltuol wahanol i wasanaethau rheoledig eraill.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
2	7	1	0	9
11%	37%	5%	0%	47%

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yna gefnogaeth eang i'r cynigion.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn fodlon bod y cynigion yn adlewyrchu'r amodau y byddai darparwyr gwasanaethau eirioli yn gweithredu yn unol â nhw. Bu i rai awgrymu bod y darpariaethau i raddau helaeth yn adlewyrchu'r Fframwaith Safonau a Deilliannau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc neu Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Bu i rai awgrymu nad yw'r prawf rhesymoldeb yn ddigon cadarn er mwyn ymdrin â'r mater o fodloni anghenion iaith a chyfathrebu.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r canllawiau statudol yn ymhelaethu ar y gofyniad yn rheoliad drafft 17 (iaith a chyfathrebu) ac yn rhoi enghreifftiau o'r trefniadau y dylai darparwyr gwasanaethau fod wedi eu sefydlu, a sut y dylai eu dull o adnabod anghenion cyfathrebu unigolion fod yn rhan o'u penderfyniad ynghylch a yw'r gwasanaeth yn addas neu beidio, Mae hynny yn cynnwys cyfathrebu gyda'r unigolyn yn yr iaith sydd ei hangen arnynt ac a ddewisir ganddynt.



## RHAN 7: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – Diogelu

### Cwestiwn 7: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
2	5	3	0	9
11%	26%	16%	0	47%

#### Crynodeb o'r ymatebion

Bu i un ymatebwr awgrymu y bydd angen i archwilwyr dderbyn hyfforddiant ar eiriolaeth er mwyn deall yn iawn beth yw rôl a chyfrifoldebau ymyriadau a darpariaeth eirioli. Bu iddynt awgrymu y byddai cymhwyster City and Guilds Lefel 4 mewn eiriolaeth yn briodol.

Bu i rai awgrymu nad yw gwneud yn ofynnol i wasanaethau gael eu darparu mewn ffordd sydd yn sicrhau bod unigolion yn ddiogel yn cydnabod bod gan oedolion â chapasiti yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain, ac i benderfynu ar eu lefelau risg eu hunain. Nid rôl yr eiriolwr yw gosod ei safbwynt ei hun ar hynny neu weithredu er lles yr oedolyn. Er bod y sefyllfa mewn perthynas â phlant yn wahanol, mewn perthynas â gadawyr gofal byddai'n briodol cydnabod y cyfnod pontio i fyd oedolion a'r hawl sy'n datblygu i unigolyn wneud penderfyniadau drosto ei hun.

Bu i rai nodi bod y canllawiau statudol mewn perthynas â rheoliad drafft 21 (Polisi a gweithdrefnau diogelu) yn nodi y dylai gwasanaethau eirioli annibynnol hysbysu pobl am eu hawl i dderbyn Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Maent yn awgrymu bod hynny wedi ei drosglwyddo'n amhriodol o Reoliadau cyfnod 2 mewn perthynas â chartrefi gofal a gofal preswyl - mewn perthynas â gwasanaethau eirioli nid yw'r gofyniad yn gwneud synnwyr.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i archwilwyr gael hyfforddiant priodol er mwyn archwilio a rheoleiddio gwasanaethau eirioli. Er bod materion o'r fath y tu allan i gwmpas ymgynghoriad, mae CIW yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod gan archwilwyr wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r sector eirioli a byddant yn gweithio gyda darparwyr er mwyn datblygu ei fframwaith archwilio a methodoleg archwilio ar gyfer gwasanaethau eirioli a reoleiddir yn ystod 2019/20.

Nid yw'n fwriad i reoliad drafft 20 (Diogelu - gofyniad trosfwaol) ymdrin â pherthnasoedd un i un rhwng eiriolwr ac unigolyn, ac mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y canllawiau statudol yn canolbwyntio digon ar drefniadau y mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaethau fod wedi eu sefydlu yn hytrach nag ar ymddygiad eiriolwyr unigol.

Byddwn yn tynnu o'r canllawiau statudol unrhyw awgrym bod unigolion yn cael eu hysbysu am eu hawl i gael Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, oherwydd ni fyddid yn ymgysylltu â darparwr gwasanaeth dim ond ar ôl defnyddio'r hawl hwnnw.

## RHAN 8: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio

### Cwestiwn 8: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?

A ydych yn ystyried bod y gofynion i reolwyr gwasanaethau eirioli gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn gymesur a buddiol o ran sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n effeithiol? A oes yna unrhyw faterion ychwanegol fyddai angen eu hystyried?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
2	4	3	1	9
11%	21%	16%	5%	47%

### Crynodeb o'r ymatebion

Bu i rai ymatebwyr gwestiynu'r cyfeiriadau at wirfoddolwyr mewn perthynas â gwasanaethau eirioli rheoledig, gan ddadlau na ddylai gwasanaethau eirioli a ddarperir yn wirfoddol gael eu rheoleiddio.

Bu i rai ymatebwyr gwestiynu a oedd rheoliadau drafft 24(4)(5) a (6) (Addasrwydd Staff) yn ddiogel neu'n deg, oherwydd os bydd unigolyn wedi ei gofrestru ar gyfer diweddariadau blynyddol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth wirio tystysgrif yr unigolyn o leiaf yn flynyddol, ond pan nad ydynt, mae tystysgrif newydd yn ofynnol bob 3 blynedd.

Awgrymodd un ymatebwr (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Torfaen) y byddai'n well disgrifio'r polisi disgyblaeth y cyfeirir ato yn rheoliad drafft 28 (Gweithdrefnau disgyblu) fel Cod Ymarfer gyda chymhwysedd clir i wirfoddolwyr.

Awgrymodd un ymatebwr (Cyngor Sir Caerfyrddin) y byddai'r canllawiau mewn perthynas â rheoliad drafft 28 yn elwa o ychwanegu enghreifftiau o ymddygiad fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol neu'n annerbyniol, a threfniadau i wahardd aelod staff.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn amcanu at archwilio a rheoleiddio darpariaeth gwasanaethau eirioli, ond mae'n cydnabod y gall gwirfoddolwyr gael eu defnyddio gan ddarparwyr gwasanaethau mewn gweithgareddau ar wahân i ddarparu eiriolaeth yn uniongyrchol. Er eu bod yn elfen bwysig o'r cyd-destun diogelu, rydym yn ymwybodol nad yw gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn darparu diogelwch gwarantedig. Mae ymarferion gwaith da mewn perthynas â diogelu yr un mor bwysig. Rydym yn ymwybodol bod angen mwy o waith ar gydnabod cymwysterau, a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid allanol eraill er mwyn gweithredu gofynion rheoleiddiol ynghylch cymwysterau a chofrestru rheolwyr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn addasu'r canllawiau statudol mewn perthynas â gweithdrefnau disgyblu er mwyn egluro ymddygiad derbyniol ac annerbyniol, pa gamau fydd yn cael eu cymryd os bydd pryderon am ymddygiad staff, a'r trefniadau ar gyfer gwahardd aelod staff (neu ei drosglwyddo i gyflawni dyletswyddau eraill), tra ystyrir neu yr ymchwilir i honiad o gamdriniaeth neu bryder difrifol mewn perthynas â diogelwch neu les unigolion.

## RHAN 9: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safleoedd

### Cwestiwn 9: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
2	6	2	0	9
11%	32%	11%	0%	47%

#### Crynodeb o'r ymatebion

Bu i rai ymatebwyr wneud sylwadau ynghylch ystyr "safle" yn y Rhan hon, gan ddadlau bod rheoliad drafft 29 yn nodi y dylai safle, cyfleusterau ac offer fod yn addas ar gyfer y gwasanaeth, ond nad yw'n ddigon clir ai ystyr gwasanaeth yw rhedeg y gwasanaeth eirioli o ddydd i ddydd neu ddarparu gwasanaeth eirioli, fydd yn digwydd yn y gymuned. Nododd eraill y gellid dehongli bod y canllawiau statudol ar reoliad drafft 30 yn rhy rhagnodol, a bod yn rhaid tybio y bydd rheolwyr yn goruchwyllo staff mewn lleoliad preifat naill ai ar safle neu oddi ar safle y gwasanaeth eirioli.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Pan gyfeirir at wasanaeth, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y diffiniad o 'wasanaeth' yn rholiad drafft 1(4) yn egluro bod hynny yn gysylltiedig â'r gwasanaeth a ddarperir mewn ardal benodol. Mae sail cofrestr gwasanaeth yn fater i Arolygiaeth Gofal Cymru, ond y bwriad yw cofrestru gwasanaethau ar sail Cymru gyfan.

Rydym wedi addasu'r canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 9 y Rheoliadau drafft er mwyn egluro nad y lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yw'r safle y cyfeirir ato yma o reidrwydd, ac y gellid ei ddefnyddio at ddibenion gweinyddol yn unig yng nghyd-destun darparwr gwasanaeth eirioli. Rydym wedi ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r mater, wedi ystyried natur y sector ac felly wedi tynnu allan y gofyniad i'r safle a ddefnyddir ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth gael digon o gyfleusterau ar gyfer goruchwyllo staff. Mae nifer wedi dweud wrthym bod preifatrwydd goruchwyllo staff yn cael ei wella drwy gynnal goruchwyliaeth o'r fath oddi ar y safle, ac rydym yn ystyried bod y gofyniad i unrhyw safle a ddefnyddir ar gyfer darparu gwasanaeth eirioli gael cyfleusterau ar gyfer goruchwyllo staff yn breifat yn rhy rhagnodol, beichus ac amhriodol, o ystyried nifer y staff dan sylw a natur y safle a ddefnyddir ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth yn y sector eirioli.

## RHAN 10: Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau

### Cwestiwn 10: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
3	5	1	0	10
16%	26%	5%	0%	53%

#### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yna gefnogaeth eang i'r cynigion.

Bu i nifer o ymatebwyr nodi nad yw rheoliad drafft 31 (Cofnodion) yn cyfeirio o gwbl at Reoliad Diogelu Data Cyffredinol, a nododd eraill bod y cyfnod o 15 mlynedd a nodwyd ar gyfer cadw cofnodion mewn perthynas â phlant, yn rhy hir.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd geiriad y canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 11 mewn perthynas â rhyddhau cofnodion i gynrychiolwyr, yn adlewyrchu'n gywir y gyfrinachedd sydd yn rhan annatod o'r berthynas rhwng eiriolwr a defnyddiwr gwasanaeth. Awgrymodd un y dylai hysbysiad i'r rheoleiddiwr gwasanaeth o ddigwyddiad a nodir yn Atodlen 3 gael ei ategu gan wybodaeth am y camau arfaethedig fydd yn cael eu cymryd i ymdrin â'r mater.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r canllawiau statudol yn dangos y dylai mynediad at gofnodion a gwybodaeth am unigolion a ddelir gan ddarparwyr gwasanaethau fod yn unol â gofynion cyfreithiol cyfredol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y cyfnod o 15 mlynedd ar gyfer cadw cofnodion mewn perthynas â phlant yn briodol, o ystyried y gallai'r plentyn ddymuno cael mynediad atynt pan yn oedolyn.

Byddwn yn addasu canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 10 er mwyn dangos y dylai unrhyw gynrychiolydd gael mynediad at unrhyw gofnodion a gwybodaeth amdanynt a ddelir gan ddarparwyr gwasanaethau yn unol â gofynion cyfreithiol cyfredol, a dim ond gyda chaniatâd yr unigolyn. Mewn perthynas â'r wybodaeth fydd i'w darparu, ynghyd â hysbysiad am unrhyw ddigwyddiad yn Atodlen 3, mae Llywodraeth Cymru yn credu y gall darpariaeth fydd yn gofyn am wybodaeth ar gamau unioni posibl arwain at oedi o ran hysbysu, ac ni fyddai hynny yn ddymunol.

## RHANNAU 11 - 15: Gofynion ar Unigolion Cyfrifol

**Cwestiwn 11: A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer gwasanaethau eirioli Rydym wedi nodi'r amgylchiadau pan nad yw'r gofyniad i unigolyn cyfrifol benodi rheolwr yn gymwys. O dan yr amgylchiadau hynny byddai angen i'r unigolyn cyfrifol gael ei gofrestru fel rheolwr gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddem yn croesawu safbwyntiau ar hyn ac ar amllder ymweliadau a chyfarfodydd y mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol eu trefnu gydag unigolion ac aelodau staff.**

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
2	4	3	0	10
11%	21%	16%	0%	53%

### Crynodeb o'r ymatebion

Oherwydd bod rheoliad drafft 39 yn rhwystro rheolwyr rhag bod yn gyfrifol am fwy nag un gwasanaeth, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'n fuddiol egluro efallai a yw 'un gwasanaeth' yn cyfeirio at gontract rhanbarthol, neu gontract cenedlaethol.

Mewn perthynas â'r gofyniad ynghylch ymweliadau gan yr Unigolyn Cyfrifol â'r safleoedd y darperir y gwasanaeth ohonynt, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai hynny yn elwa o fwy o eglurder ynghylch y diffiniad o wasanaeth at ddibenion y Rheoliadau.

Nododd rhai ymatebwyr na phenderfynwyd hyd yma ar ofynion cymhwyster y grŵp yma o gofrestreion posibl. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr gofal cymdeithasol eraill angen cymhwyster Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth a Rheoli mewn Gofal Iechyd a Chymdeithasol (neu gyfatebol), ac ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar nifer y rheolwyr eirioli sydd yn ddeiliaid Diploma Lefel 5.

Bu i un ymatebwr fynegi pryder bod rheoliad drafft 43 (Ymweliadau) yn rhy feichus o ran amlededd yr ymweliadau sydd yn ofynnol, er y cydnabuwyd y byddai maint unrhyw anhawster yn dibynnal ar gymhwyso 'gwasanaeth' yn ymarferol, at ddibenion cofrestru. Fodd bynnag, roedd un ymatebwr arall yn ystyried y dylai ymweliadau fod yn ofynnol yn fwy aml na phob tri mis.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae sail cofrestr gwasanaeth yn fater i Arolygiaeth Gofal Cymru, ond y bwriad yw cofrestru gwasanaethau ar sail Cymru gyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod rheoliad 39 yn caniatáu i berson gael ei benodi fel rheolwr ar fwy nag un gwasanaeth (ond dim mwy na dau), os cytunir ar hynny gyda'r rheoleiddiwr gwasanaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhagnodi darpariaeth pontio mewn perthynas â'r gofyniad (yn rheoliad 37) i reolwr gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio ar gwmpasu'r opsiynau ar gyfer datblygu dull rheoleiddiol proffesiynol ar gyfer rheolwyr eirioli, a'r gwaith sydd yn ofynnol i gyflawni hynny. Gallai hynny gynnwys argaeledd cymwysterau, datblygu neu addasu cod ymarfer proffesiynol a chanllawiau perthnasol. Mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo.

## RHAN 16: Troseddau

### Cwestiwn 12: A yw'r ymagwedd a gymerir mewn perthynas â throseddau yn ddigonol a chymesur?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
1	4	3	0	11
5%	21%	16%	0%	58%

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen eglurder ynghylch p'un a yw methu â chydymffurfio yn drosedd, neu a yw'n drosedd dim ond pan fo'n arwain at niwed y gellid ei osgoi, neu risg o niwed i unigolyn. Teimlwyd y gallai cyfeirio at droseddau a chosbau fod yn negyddol ac y gallai hynny achosi i ddarparwyr arfaethedig benderfynu peidio â mentro i'r farchnad. Teimlwyd bod rhai elfennau yn ddifrifol. Er ei bod yn bwysig bod yna ganlyniadau i ddarparu gwasanaeth gwael, roedd eraill yn teimlo bod y rhestr o droseddau posibl yn anghymesur ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o'r newydd, megis eiriolaeth.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod yn bwysig bod yna ganlyniadau i ddarparu gwasanaeth gwael. Er mwyn i reoliadau olygu rhywbeth a chyfrannu at gynnal safonau uchel, mae'n rhaid i'r posibilrwydd y bydd darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn wynebu canlyniadau os byddant yn methu â chydymffurfio â rheoliadau fodoli. Mae darpariaethau mewn perthynas â niwed y gellir ei osgoi, risg o niwed, a lladrata, camddefnyddio neu adfeddu arian neu eiddo yn cael eu cynnwys fel y gellir ymdrin â'r Rheoliadau hynny sydd yn effeithio'n fwyaf uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir i unigolion gyda thrylwyredd dyledus.

Rydym yn cydnabod bod hwn yn sector sydd yn cael ei reoleiddio o'r newydd, a bod sefydlogrwydd y farchnad yn ffactor. Mae Polisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi Arolygiaeth Gofal Cymru<sup>9</sup>, fel rheoleiddiwr y gwasanaeth, yn nodi'r dull trosfwaol o orfodi, yn cynnwys yr egwyddorion a'r prosesau a ddilynir pan ddefnyddir pwerau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn archwilio yn erbyn gofynion statudol ac yn cymryd camau yn erbyn darparwyr gwasanaethau pan na fodlonir y gofynion yma. Mae'r polisi yn nodi:

'Pan fo'n briodol gwneud hynny, rydym yn gweithredu dull graddol er mwyn sicrhau gwelliant a gorfodaeth yn unol â'r egwyddorion gorfodi. Pan fo gennym bryderon neu wedi

<sup>9</sup> <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-06/180601-securing-improvement-enforcement-policy-en.pdf>

canfod achos o ddiffyg cydymffurfio (h.y. peidio â bodloni gofynion y gyfraith) rydym yn cymryd camau er mwyn sicrhau'r gwelliant sydd ei angen. Fodd bynnag, pan ydym yn canfod diffyg cydymffurfiaeth ddifrifol, lluosog neu barhaus, gallwn ddefnyddio pwerau i gyfyngu ar y ddarpariaeth y gall darparwr ei ddarparu'n gyfreithlon, neu yn y pen draw, atal y darparwr rhag gweithredu'n gyfan gwbl.'

Bydd y dull graddol yma yn sicrhau bod bodloni gofynion statudol yn parhau i fod yn ffocws i'r gyfundrefn reoleiddiol. Fodd bynnag, pan nad yw darparwr gwasanaeth yn bodloni'r rhain, bydd camau yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau gwelliant.

## RHAN 16: Hysbysiadau Cosb

**Cwestiwn 13: A yw'r ymagwedd mewn perthynas â hysbysiadau cosb, fel y dangosir hynny yn Atodiad A, yn ddigonol a chymesur? A yw'r lefelau cosb yn briodol?**

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
1	4	2	1	11
5%	21%	11%	5%	58%

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai difrifoldeb yr Hysbysiadau Cosb yn achosi i rai beidio â mentro i'r farchnad, ac y byddai hynny yn gwneud y dasg o ganfod pobl i fod yn Unigolion Cyfrifol yn fwy anodd.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hwn yn sector a reoleiddir o'r newydd ac mae wedi mabwysiadu ymagwedd sydd, tra'n sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cyrraedd a'u cynnal ar gyfer pob gwasanaeth a reoleiddir, yn amcanu at gyflwyno rheoliadau mewn ffordd fydd yn gwarchod a chefnogi'r farchnad ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli a reoleiddir.

Pwrpas yr hysbysiad cosb yw cynnig cyfle i'r derbynnnydd ryddhau atebolrwydd am gollfarn am y drosedd drwy dalu cosb. Mae symiau'r cosbau yn adlewyrchu difrifoldeb y troseddau, a bwriedir iddynt gymell darparwyr i beidio â thorri'r rheoliadau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu system hysbysiadau cosb sydd yn gyson a theg, a'r bwriad yw i hysbysiadau cosb gael eu rhoi yn gymesurol.



## RHAN 17: Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu diddymu etc. neu sydd wedi marw

### Cwestiwn 14: A yw'r gofynion a osodwyd ar unigolion a benodwyd a chynrychiolwyr personol yn rhesymol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
2	4	1	0	12
11%	21%	5%	0%	63%

#### Crynodeb o'r ymatebion

Ychydig o ymatebion ysgrifenedig a gafwyd i'r cwestiwn hwn.

Pe bai'r ymadawedig wedi dal rôl darparwr gwasanaeth a rheolwr a'i bod oherwydd hynny yn ofynnol iddo gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, roedd un ymateb yn holi pam na fyddai'n ofynnol i'r cynrychiolydd personol gofrestru er y byddai'n gweithredu yn yr un rhinwedd ac efallai wedi cael caniatâd i redeg y gwasanaeth am hyd at flwyddyn. Gofynnwyd 'beth fyddai'n digwydd pe bai yna gwestiynau am eu haddasrwydd i ymarfer yn ystod y cyfnod yma?'

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y gall y cynrychiolydd personol ond gweithredu am 28 diwrnod yn unig heb gytundeb rheoleiddiwr y gwasanaeth. Er nad yw'n ofynnol i'r cynrychiolydd personol gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, byddem yn disgwyl i reoleiddiwr y gwasanaeth ystyried addasrwydd i ymarfer mewn perthynas ag unrhyw estyniad y tu hwnt i 28 diwrnod. Byddai pob gofyniad arall a nodir gan y Rheoliadau yma yn dal i fodoli, gan sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod eithriadol.

## RHAN 18: Rheoliadau o dan Adran 21(5) - Dynodi Unigolion Cyfrifol gan Weinidogion Cymru

### Cwestiwn 15: A yw'r amgylchiadau pan allai unigolion cyfrifol gan eu dynodi gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth, yn ddigonol a chymesur?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
2	4	1	0	12
11%	21%	5%	0%	63%

#### Crynodeb o'r ymatebion

Ychydig iawn o sylwadau perthnasol a dderbyniwyd mewn perthynas â Rhan yma y Rheoliadau. Bu i rai gyfeirio at faterion megis trefniadau yswiriant ar gyfer yr unigolion cyfrifol.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw addasiadau i'r rheoliad hwn.

Mae trefniadau yswiriant ar gyfer unigolion cyfrifol yn fater gweithredol ar gyfer darparwyr gwasanaeth.

## 2.2 Cwestiynau ychwanegol

**Cwestiwn 16: A yw'r costau/buddion/risgiau y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori hon yn adlewyrchiad rhesymol o lefel effaith y Rheoliadau drafft? A oes yna unrhyw gostau/buddion/ risgiau ychwanegol yr ydych yn teimlo na ystyriwyd neu na nodwyd?**

### Crynodeb o'r ymatebion

Bu i rai ymatebwyr nodi y gallai risgiau a galwadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn archwilio a rheoleiddio arwain at risg y byddai darparwyr gwasanaethau yn rhoi'r gorau i weithredu ac y byddai darpar ddarparwyr yn penderfynu peidio â darparu gwasanaeth. Roedd eraill yn awgrymu y gallai costau i reolwyr gwasanaethau eirioli, sydd yn gysylltiedig ag ymgymryd â'r cymwysterau sydd yn ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru er mwyn cofrestru, fod yn waharddol. Awgrymodd un ymatebwr nad oes gan wasanaethau eirioli ddigon o gyllid, o fewn eu Cytundebau Lefel Gwasanaeth presennol neu drefniadau comisiynu, i gyflawni'r holl ofynion a dyletswyddau a nodir yn y Rheoliadau. Mynegwyd pryder ynghylch effaith cydymffurfio â'r dyletswyddau ar sefydliadau bychan gwirfoddol, sydd yn aml yn rhai cymunedol ac sy'n darparu gwasanaethau allweddol i bobl yn eu hawdurdod lleol.

Bu i un ymatebwr groesawu rheoleiddio gwasanaethau eirioli ac roedd wedi galw am hynny yn ystod hynt y Bil. Bu iddo nodi ei fod yn credu bod rheoleiddio gwasanaethau eirioli yn gwarchod ac yn cydnabod rôl eirioli proffesiynol ac y bydd yn helpu i ategu darpariaeth cymorth annibynnol i blant sy'n agored i niwed ar draws Cymru. Bu iddo fynegi y byddai nifer o weithwyr proffesiynol yn y sector eirioli statudol i blant hefyd yn croesawu'r statws a'r gydnabyddiaeth i wasanaeth proffesiynol y mae rheoleiddio yn ei greu.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae rheoleiddio gwasanaethau eirioli wedi deillio o gydnabyddiaeth i bwysigrwydd y rôl y gall eiriolaeth ei chwarae o ran helpu unigolion fynegi eu dymuniadau a'u dyheadau. Bwriedir iddo helpu i ddarparu cymorth effeithiol i blant sy'n agored i niwed ar draws Cymru. Mae rheoleiddio ac archwilio gwasanaethau eirioli wedi cael ei fandadu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy'r Ddeddf. Mae gwaith yn cael ei wneud gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn nodi cymwysterau addas ar gyfer rheolwyr gwasanaethau eirioli, a bydd costau cymwysterau presennol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses honno.

Bydd rheoleiddio yn cael ei ymestyn i wasanaethau eirioli eraill pan fo amodau'r farchnad yn dangos bod hynny yn briodol. Byddai rheoliadau newydd fyddai'n ymestyn i wasanaethau oedolion yn golygu y byddai angen asesiad newydd o'r effaith ac ymgynghoriad cyn eu cyflwyno.

**Cwestiwn 17: A ydych yn credu bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?**

**A ydych yn credu bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig?**

## **Crynodeb o'r ymatebion**

Ychydig iawn o ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn yma. Un o'r materion a godwyd oedd nodi bod gwaith eisoes yn cael ei wneud gan ddarparwyr eiriolaeth ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddarpariaeth eiriolaeth ar gyfer pob grŵp. Hefyd cytunwyd y byddai'n fuddiol rheoleiddio er mwyn sefydlu safonau y gellid rheoleiddio darparwyr eirioli yn eu herbyn, ac y bydd ganddynt ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.

Awgrymodd un ymatebwr bod y gofyniad yn rheoliad drafft 18 i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y dylid trin pob unigolyn gyda pharch a sensitifrwydd yn ddefnyddiol ac y dylid monitro hynny yn ffurfiol.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol yn cael eu tanategu gan yr egwyddorion a nodir yn Neddf 2014 sydd yn cynnwys dyletswydd drosfwaol, yn adran 6(2)(c), bod rhaid i unrhyw berson sydd yn cyflawni swyddogaeth o dan y Ddeddf ystyried nodweddion diwylliant a chredoau yr unigolyn.

Mae egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015') yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae Deddf 2015 yn sefydlu saith o nodau llesiant, ac un ohonynt yw "Cymru sy'n Fwy Cyfartal" gan sicrhau cymdeithas sydd yn galluogi i bobl gyflawni eu potensial beth bynnag fo'u cefndir neu amgylchiadau. Mae hynny wedi cael ei ystyried drwy weithredu Deddf 2016.

Bydd cydymffurfio â'r Rheoliadau yn destun archwiliad, a phan fo'n briodol, camau gorfodi cymesurol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried mecanweithiau ffurfiol ychwanegol er mwyn monitro cydymffurfiaeth ag unrhyw reoliadau fyddai'n briodol yn y cyd-destun hwnnw.

**Cwestiwn 18: Hoffwn wybod beth yw eich safbwyntiau ar effeithiau'r cynigion hyn ar yr Iaith Gymraeg, yn benodol mewn perthynas â**

- i) chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a**
- ii) pheidio â thrin yr Iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau ydych chi'n meddwl allai fodoli? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

**Hefyd eglurwch sut ydych yn credu y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:**

**i) creu effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr Iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a**

**ii) sicrhau na effeithir yn niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr Iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

### **Crynodeb o'r ymatebion**

Dim ond dau ateb naratif a derbyniwyd mewn perthynas ag effeithiau posibl ar yr Iaith Gymraeg. Teimlwyd y dylid ymdrin yn benodol â'r ddarpariaeth Iaith Gymraeg yn y Rheoliadau ac y dylid atgyfnerthu'r elfen honno. Hefyd cwestiynwyd pam nad yw'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl wybodaeth gael ei darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Rheoliadau yma wedi bod yn destun Asesiad Iaith Gymraeg fel rhan o'r broses Asesu'r Effaith Integredig.

Bwriedir i'r Rheoliadau ategu 'Mwy na geiriau....Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymunedol a Gofal yn y Gymuned 2016-2019'. Mae'r strategaeth wedi ei llunio ar sail y gwerthoedd y dylai pob unigolyn gael ei drin gydag urddas a pharch ac y dylent derbyn asesiadau cywir a gofal priodol. Mae'r strategaeth yn amlygu pwysigrwydd derbyn gofal drwy gyfrwng iaith gyntaf yr unigolyn, gan nodi "nid mater o ddewis yn unig yw defnyddio'r Iaith Gymraeg, ond hefyd mae'n fater o angen. Mae'n arbennig o bwysig i nifer o bobl sy'n agored i niwed a'u teuluoedd sydd angen cael mynediad at wasanaethau yn eu iaith gyntaf, megis pobl hŷn sydd yn dioddef â dementia neu strôc allai gollu eu hail iaith, neu blant ifanc iawn sydd efallai ond yn siarad Cymraeg".

Rydym wedi ymgorffori'r egwyddorion yma yn y Rheoliadau, yn bennaf o dan y gofyniad i ddarparwyr gymryd camau rhesymol i fodloni anghenion iaith unigolion (rheoliad drafft 17). Mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg, mae hynny yn golygu bod darparwyr gwasanaethau yn darparu neu'n gweithio ar gynnig gwasanaeth yn yr Iaith Gymraeg i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mewn perthynas â gwybodaeth i unigolion, mae'n ofynnol i'r

canllawiau ar y gwasanaethau fod mewn iaith, arddull, edrychiad a fformat priodol, gan ystyried y datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth (rheoliad drafft 15(2)(b)). Mae'r gofynion yn y Rheoliadau hefyd yn cefnogi un o egwyddorion craidd Deddf 2014, sef galluogi pobl i gael llais cryfach a mwy o reolaeth ar y gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir iddynt.

**Cwestiwn 19: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi delio â hwy yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi**

### **Crynodeb o'r ymatebion**

Derbyniwyd nifer o ymatebion i'r cwestiwn yma. Awgrymodd rhai y bydd angen adlewyrchu'r mân wahaniaethau rhwng trefniadau contract a monitro ar gyfer gwasanaethau eirioli i blant ac oedolion mewn unrhyw estyniad i'r gyfundrefn reoleiddio yn y dyfodol, ac yn narpariaethau'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol. Awgrymwyd bod angen rheoliadau neu adrannau ar wahân yn y canllawiau ar gyfer gwasanaethau eirioli i blant ac oedolion, er mwyn adlewyrchu unrhyw ddargyfeirio neu wahaniaethau.

Hefyd awgrymwyd y gallai fod yn well cyflwyno hyn fesul cam oherwydd nad yw eiriolaeth yn wasanaeth rheoledig ar hyn o bryd.

Bu i ymatebwr arall awgrymu y bydd yn hanfodol i archwilyr gael profiad o eirioli er mwyn gallu archwilio gwasanaethau yn effeithiol.

Nodwyd hefyd y bydd yr angen i addasu a diweddarau polisïau a gweithdrefnau ac i roi hysbysiadau i rheoleiddwyr yn feichus i ddarparwyr gwasanaethau. Hefyd, dylid osgoi unrhyw ddyblygu darpariaeth y Dull Cenedlaethol.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod rheoleiddio ac archwilio gwasanaethau eirioli wedi cael ei fandadu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod yn rhaid i reoleiddio fod yn ystyrllon. Rydym yn bwriadu gweithredu hyn mewn ffordd gymesur ac effeithiol, gan ddechrau gydag eiriolaeth statudol i blant. Bydd ymestyn rheoleiddio eiriolaeth i feysydd eraill y sector yn cael ei wneud dim ond pan fo amodau'r farchnad yn dangos bod hynny'n briodol, a bydd yn destun mwy o ymgynghori. Mae darpariaethau'r Dull Cenedlaethol yn gritigol o ran sut ydym yn rhagweld darparu gwasanaethau eirioli i bobl Cymru. Un o ddeilliannau amlwg yr ymgynghoriad hwn, ymgynghoriadau blaenorol ac ymgysylltu â'r sector, yw mai'r ffordd orau o gyflwyno rheoleiddio'r sector fyddai gwneud hynny mewn modd gymesur.

Mae Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr yn ymwybodol bod eiriolaeth yn sector gaiff ei reoleiddio o'r newydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod rheoliadau a chanllawiau yn caniatáu i reoleiddio ac archwilio gynnal a gwella safonau a darpariaeth fel y mandadir hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol le/Na	Sefydliad/Ar ran
1.	✓	Cymdeithas Plant Fyddar Genedlaethol Cymru
2.	✓	Gofalwyr Cymru
3.	✓	Unigolyn
4.	✓	Comisiynydd Plant Cymru
5.	✓	Gofal Cymdeithasol Cymru
6.	✓	Cyngor Sir y Fflint
7.	✓	Tros Gynnal Plant Cymru
8.	✓	ProMo-Cymru
9.	✓	Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
10.	✓	Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
11.	✓	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
12.	✓	Age Cymru
13.	✓	Ni roddwyd dim
14.	✓	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
15.	✓	
16.	✓	Lleisiau Care Cymru
17.	✓	Cyngor Sir Caerfyrddin
18.	✓	Tîm Datblygu Cynhwysiant Cenedlaethol
19.	✓	ADSS Cymru a CLILC

### Plant yng Nghymru

#### Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan

Cafodd yr ymatebion hyn eu derbyn gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori ond, drwy amryfusedd, ni chawsant eu cynnwys yn y Rhestr o Ymatebwyr yn Atodiad A pan gyhoeddwyd y ddogfen gyntaf ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r rhestr bellach wedi'i chywiro er mwyn eu cynnwys, ond nid yw'r wybodaeth rifiadol ar gyfer pob cwestiwn wedi ei newid, a hynny er mwyn cadw cysondeb â'r ddogfen fel y cyhoeddwyd hi ar gyfer craffu ar y Rheoliadau. Mae'r holl sylwadau a gafodd eu gwneud yn yr ymatebion wedi cael eu hystyried.